# Polisi amgylcheddol

Mae Chwarae Cymru yn sylweddoli y bydd pob aelod o staff sy'n gysylltiedig â Chwarae Cymru, wrth gyflawni eu gwaith bob dydd, yn cael rhyw effaith ar yr amgylchedd.

Byddwn yn ymrwymo i fabwysiadu arferion gweithio fydd yn helpu i gael effaith cadarnhaol, cynorthwyo tuag at welliant amgylcheddol parhaus, atal llygredd a lleihau dylanwadau negyddol anochel a achosir gan weithgarwch Chwarae Cymru.

Mae'r polisi amgylcheddol hwn yn cwmpasu pob agwedd o'n gweithrediadau. Yn benodol, bydd Chwarae Cymru yn:

- Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir trwy ailddefnyddio ac ailgylchu ble fo'n bosibl. Ble bynnag y bo'n ymarferol, dylai cyfathrebiadau fod yn electronig. Ble bo'n ymarferol, dylai deunydd ysgrifennu fod yn bapur sydd wedi ei ailgylchu 100%. Ble bo'n ymarferol dylai unrhyw lungopïo o natur olynol, e.e. cofnodion ac adroddiadau, fod ar ddwy ochr y papur. Dylid ailgylchu papur gwastraff y swyddfa.
- Dysgu am gaffael a defnyddio cynnyrch / gwasanaethau sydd â'r effaith cymdeithasol ac amgylcheddol lleiaf posibl.
- Defnyddio ynni a dŵr mewn modd effeithlon a defnyddio, ble fo modd, gwmnïau cyfleustodau sy'n cynnig Tariff Gwyrdd. Dylid defnyddio bylbiau golau sy'n arbed ynni ble fo modd. Dylid defnyddio batris di-fercwri a chadmiwm isel, os oes rhaid defnyddio batri o gwbl, ond dylid defnyddio'r prif gyflenwad trydan pryd bynnag y bo modd. Dylid diffodd llungopiwyr, peiriannau, cyfrifiaduron, gwresogyddion a goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Lleihau effaith allyriadau cerbydau trwy annog mabwysiadu egwyddorion teithio a threfnu cyfarfodydd cynaliadwy. Dylai staff rannu cludiant pryd bynnag y bo modd a dylai lleoliadau cyfarfodydd gael eu trefnu sydd â'r pellter teithio lleiaf. Dylid teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ble fo'n rhesymol ymarferol.
- Darparu hyfforddiant / cyngor a diweddaru staff yn rheolaidd ar faterion i annog arfer amgylcheddol da.
- Sicrhau y cydymffurfir yn llawn â deddfau amgylcheddol sy'n berthnasol i weithgarwch y sefydliad.
- Sicrhau bod sefydliadau yr ydym yn ymwneud â hwy yn ymwybodol o'n polisïau a'u hannog hwythau i ddatblygu eu harferion amgylcheddol da eu hunain.
- Wrth brynu offer newydd, byddwn ond yn prynu'r eitemau sy'n arbed mwyaf o ynni a ble fo'n bosibl frandiau gydag adnoddau y gellir eu hail-lenwi / eu hail-ddefnyddio, e.e. peiriannau argraffu.

**Cyfrifoldebau pob aelod o staff**
Gofynnir i bob aelod o staff ddilyn y canlynol:

Ailgylchu

- Ailddefnyddio papur, amlenni, ffolderi ayyb ble fo modd.
- Dim ond argraffu pan mae’n hanfodol - defnyddio ‘rhagolwg argraffu’ gymaint â phosibl er mwyn lleihau’r defnydd o bapur.
- Ailgylchu papur, poteli, caniau, cardbord, plastig, cetris arlliw a gwastraff bwyd yn y biniau a ddarperir.

Cludiant

- Hybir defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, seiclo a rhannu ceir fel y dulliau teithio a ffafrir - yn cynnwys teithio i ac o gyfarfodydd.
- Defnyddio fideo- neu delegynadledda ar gyfer cyfarfodydd ble fo modd er mwyn lleihau / dileu’r angen i deithio.
- Dylai’r defnydd o geir fod yn unol â’r gweithdrefnau a amlinellir ym mholisi teithio a chynhaliaeth Chwarae Cymru.

Defnyddio ynni

- Dylid defnyddio ynni - dŵr, gwresogi, goleuadau - yn effeithlon. Diffoddwch oleuadau, cyfrifiaduron, peiriannau argraffu pan nad ydych yn eu defnyddio ac yn enwedig pan nad ydych yn yr adeilad.
- Gosodwch eich cyfrifiaduron ar y modd arbed ynni.

Caiff y polisi hwn ei gynnal a’i weithredu gan y Rheolwr Gweithrediadau.

**Fersiwn polisi**
Adolygwyd y polisi hwn ym mis Ionawr 2025